



## Y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dyddiad: Dydd Llun 24 Medi 2018

Amser: 10:30 tan 12:30

Lleoliad: Canolfan Reoli Powys, Llandrindod,  
Powys.

### Yn bresennol:-

NH (Cadeirydd)	Ymgynghorydd Annibynnol
DT	Ymgynghorydd Annibynnol
NC	Ymgynghorydd Annibynnol
JJ	Ymgynghorydd Annibynnol
ME	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP
MBr (cofnodion)	Swyddog Cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP
CHL	Ymgynghorydd Polisi ac Ymgysylltu – SCCH
SB	Arolygydd – Uned Lleihau Troseddau a Niwed, HDP
DFP	Rhingyll – Uned Lleihau Troseddau a Niwed, HDP
NP	Arbenigwr Meddalwedd, HDP

### 1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb a Chyflwyniadau

Cyflwynodd pawb ei hun a nodwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

PS	Ymgynghorydd Annibynnol
RB	Ymgynghorydd Annibynnol
KR	Ymgynghorydd Annibynnol
DML	Ymgynghorydd Annibynnol
CP	Prif Uwch-arolygydd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
CF	Arolygydd /Cadeirydd y Rhwydwaith Cefnogi Menywod
CB	Ymgynghorydd Polisi a Sicrwydd- SCHTh

## 2. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod hwnnw.

### Diweddariad ynghylch camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:-

Rhif y cam gweithredu	Manylion y Cam Gweithredu	Perchennog	Diweddariad:
1	EN i sicrhau bod manylion swyddogion troseddau casineb yn cael eu cynnwys ar y tudalen troseddau casineb a hefyd bod manylion cyswllt Swyddogion/ SCCH yn gyffredinol yn cael eu cynnwys ar y tudalen we newydd.	EN	<p><b>Yn parhau -</b></p> <p>Bydd gwybodaeth ynghylch yr hyn yw Trosedd Casineb, sut y gall swyddog troseddau casineb helpu, a sut i gysylltu â swyddog troseddau casineb, yn cael ei chynnwys ar wefan HDP. Cytunwyd na fyddai manylion cyswllt unigol yn cael eu cynnwys gan nad oes modd cysylltu â swyddogion/SCCH pan nad ydynt ar ddyletswydd. Bydd y dudalen ar droseddau casineb yn nodi y gall aelodau o'r cyhoedd gysylltu â swyddog troseddau casineb yn eu cymuned trwy alw 101.</p> <p>AL/EN i drefnu darn penodol o waith er mwyn codi ymwybyddiaeth o fewn y Gymuned Fyddar i sicrhau eu bod nhw'n deall sut i gysylltu â'r heddlu.</p>
2	Ymgynghori â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol fel rhan o'r adolygiad teledu cylch cyfyng.	MD	<p><b>Cwblhawyd –</b> Bydd PS yn cynrychioli'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yng nghyfarfodydd y Grŵp Prosiect TCC.</p>
3	AL i gysylltu â KR er mwyn trafod gwaith recriwtio Llywodraeth Cymru a oedd yn targedu cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.	AL/KR	<p><b>Cwblhawyd.</b> Mae Swyddog Gweithredu Cadarnhaol HDP wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru ac wedi derbyn adroddiad mewn perthynas â'u harfer gorau. Bydd</p>

			Swyddog Gweithredu Cadarnhaol HDP yn cysylltu â Rheolwr Lleoli Amrywiaeth Llywodraeth Cymru er mwyn trafod yr adroddiad yn fanylach.
4	JL i rannu drafft o'r daflen gwyno newydd i aelodau'r GYA ar gyfer adborth pan mae'n barod.	JL	<b>Yn parhau</b> – Unodd y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Adran Safonau Proffesiynol ar 1 Ebrill 2018. Bydd y daflen gwyno newydd yn cael ei chyhoeddi ar ôl y dyddiad hwn.  Diweddariad 25.9.2018 Bydd y daflen gwyno newydd yn adlewyrchu taflen gwyno Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Mae cyfeiriad e-bost newydd wedi ei greu a bydd modd i unigolion alw 101 fel pwynt cyswllt sengl. Bydd y gwasanaeth neges destun ar gyfer y rhai sydd â nam ar eu clyw a'u lleferydd hefyd yn cael ei gynnwys ar y daflen. Cyn gynted ag y bydd y drafft yn barod, bydd copi'n cael ei ddsbarthu i'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ar gyfer adborth.
5	EN i gynnwys rhif yr heddlu ar gyfer negeseuon testun difrys ar y dudalen 'Cysylltwch â Ni' ar wefan HDP.	EN	<b>Cwblhawyd</b> – ceir manylion am y gwasanaeth negeseuon testun difrys ar y dudalen 'Cysylltwch â Ni' ar wefan HDP.
6	EN i gynnwys esboniad ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng galwadau 999 a galwadau 101 ar dudalen we laith Arwyddion Prydain HDP.	EN	<b>Cwblhawyd</b> – ceir esboniad ar dudalen laith Arwyddion Prydain HDP.
7	Pob aelod o'r GYA i gael golwg ar wefan newydd HDP a rhoi adborth i MBr. Cyfeiriad y wefan - <a href="https://www.dyfed-powys.police.uk/">https://www.dyfed-powys.police.uk/</a>	Pob aelod	<b>Cwblhawyd</b> – Yn aml, mae'r blychau ar gyfer HDP neu SCHTh yn rhy agos i'w gilydd. Mae angen mwy o fwch rhyngddyn nhw i'w gwneud hi'n gliriach pa wefan rydych chi'n mynd i fynd iddi. Mae unigolion wedi bod yn mynd i wefan

			SCHTh yn hytrach na gwefan HDP.
8	AL ac EN i ymgysylltu a thrafod sut y gellir cyflwyno gwasanaeth cyfieithu fideo Iaith Arwyddion Prydain i'r heddlu fel ffordd o gyfathrebu.	AL ac EN	<b>Yn parhau</b> Bydd ME ac EN yn ymgysylltu er mwyn symud y mater hwn ymlaen.
9	BJ i roi gwybod i PS pa ysgolion byddar arbenigol yr ymgysylltir â nhw fel rhan o'r cynllun SchoolBeat Cymru.	BJ	<b>Cwblhawyd.</b> Cadarnhaodd BJ fod 1 ysgol arbenigol yng Nghaerfyrddin yn cymryd rhan yn y cynllun SchoolBeat Cymru. Mae plant byddar hefyd mewn ysgolion prif ffrwd, felly bydd ganddynt fynediad i'r cynllun SchoolBeat Cymru.
10	BJ ac AL i gwrdd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth y mae HDP yn rhoi i ysgolion yn hygyrch ac yn cynnwys rhif gwasanaeth negeseuon testun difrys HDP.	BJ ac AL	<b>Cwblhawyd.</b> Anfonwyd copi electronig o daflen gwasanaeth negeseuon testun difrys HDP ar gyfer pobl fyddar a phobl sydd â nam ar eu lleferydd i bob ysgol. Bydd gwybodaeth am y gwasanaeth hwn hefyd ar wefan SchoolBeat Cymru.
11	Pob aelod i edrych ar wefan SchoolBeat a rhoi adborth i MBr. Cyfeiriad y wefan yw - <a href="http://www.schoolbeat.org">www.schoolbeat.org</a>	Pob aelod	<b>Cwblhawyd</b> – Mae lliwiau gwefan SchoolBeat yn llachar iawn. Awgrymodd NH y dylai'r tudalennau ar gyfer plant 14 – 16 oed fod yn llai llachar gan fod lliwiau llachar yn fwy addas ar gyfer plant oed cynradd.
12	BJ i rannu cyflwyniad SchoolBeat Cymru ymysg pob aelod o'r GYA ar ôl y cyfarfod.	BJ	<b>Cwblhawyd</b> – rhannwyd y cyflwyniad.
13	AL i gwrdd â CB a threfnu rhaglen dreigl o waith craffu gan fwydo i mewn i'r GYA er mwyn caniatáu i'r GYA sylwi ar ganfyddiadau a chodi unrhyw faterion o safbwynt amrywiaeth.	AL a CB	<b>Cwblhawyd</b> – Mae gwaith craffu SCHTh yn eitem sefydlog ar agenda'r GYA.
14	MBr i osod Gwaith Craffu SCHTh fel eitem sefydlog ar agenda'r GYA.	MBr	<b>Cwblhawyd</b> – fel uchod.
15	Aelodau o'r GYA i anfon	Pob	<b>Cwblhawyd</b>

	awgrymiadau ymlaen ynghylch sut y gall HDP gefnogi menywod i symud ymlaen at rolau uwch o fewn y sefydliad.	aelod	
--	---	-------	--

Cam Gweithredu		Perchennog	Diweddariad
16	Rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â chraffu i'r GYA 7 diwrnod cyn y cyfarfod o leiaf, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddarllen a deall y wybodaeth.	CB/MB	<b>Cwblhawyd.</b> Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu 7 diwrnod cyn cyfarfod.
17	ME a CB i gwrdd a rhoi adborth i'r Panel Sicrhau Ansawdd ynghylch sut i adrodd am eu canfyddiadau a thrafod cynrychiolaeth o'r GYA mewn adolygiadau o'r broses Stopio a Chwilio yn y dyfodol.	ME/CB	<b>Cwblhawyd.</b> Bydd un aelod o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn bresennol mewn adolygiadau o'r broses stopio a chwilio yn y dyfodol.
18	Aelodau o'r GYA i anfon unrhyw gwestiynau/adborth mewn perthynas â'r fframwaith cymhwyster addysg proffesiynol at AW.	Aelodau'r GYA	<b>Cwblhawyd.</b> Rhoddodd NH adborth yn y cyfarfod hwn, a bydd hwn yn cael ei anfon ymlaen at AW o dan orchudd ar wahân.
19	PJ i sicrhau bod data'r flwyddyn flaenorol ynghylch dalfeydd yn cael ei gynnwys ar y daenlen er mwyn cymharu.	PJ	<b>Yn parhau.</b> Yr Arolygydd Ross i ymchwilio i sut i gynnwys data'r flwyddyn flaenorol ar y daenlen. Darperir diweddariad yn y cyfarfod nesaf.
20	PJ i wirio pa un ai a yw'n bosibl cynnwys data lle mae materion lluosog yn cael eu dewis gan unigolyn.	PJ	<b>Cwblhawyd.</b> Nid yw'n bosibl cofnodi materion lluosog a ddewisir gan unigolyn ar y system gyfredol.

### 3. Bwlch Rhwng y Rhywiau

Atgoffodd NH y grŵp fod yr eitem hon yn ymwneud â diffyg menywod yn dringo'r ysgol i rengoedd uwch.

Rhoddodd ME ddiweddariad i'r grŵp ar ran y Prif Uwch-arolygydd Claire Parmenter:-

- Mae'r PG Collins wedi comisiynu darn o waith ar ddatblygiad menywod ar draws y sefydliad, a bydd y Prif Uwch-arolygydd Claire Parmenter yn arwain hyn. Mae arolwg a digwyddiad datblygu eisoes wedi'u cwblhau, a byddant yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu wrth symud ymlaen. Ailadroddir hyn ar gyfer staff yr heddlu.
- Cadarnhaodd y Prif Uwch-arolygydd Claire Parmenter bod dynes yn rhan o'r broses gyfsweld ar gyfer Dirprwy Brif Gwnstabl, ac mae'r PG hefyd wedi gofyn am gynrychiolaeth fenywaidd ar bob bwrdd dyrchafu wrth symud ymlaen.
- Cynigir sesiynau un i un a chynllun datblygu personol ar gyfer pob menyw sy'n rhingyll staff neu uwch.
- Bellach, mae gan yr heddlu Brif Arolygydd benywaidd ar draws y 4 URS a 2 Brif Uwch-arolygydd benywaidd.
- Mae'r heddlu'n gweithio gydag aelod annibynnol o'r Coleg Plismona er mwyn cefnogi datblygiad menywod.

### **3a. Adborth ynghylch proffiliau rôl Dirprwy Brif Gwnstabl a Phrif Gwnstabl Cynorthwyol**

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r panel cyfsweld, a chytunodd y grŵp y dylai'r cydbwysedd o ran rhyw ar y panel cyfsweld fod yn 50/50. Hefyd, nodir y dylai geiriad y proffiliau rôl fod yn niwtral; dylid newid 'ef' neu 'hi' i 'nhw'.

**Cam Gweithredu: - ACPO i sicrhau bod y cydbwysedd o ran rhyw ar y paneli cyfsweld ar gyfer Dirprwy Brif Gwnstabl a Phrif Gwnstabl Cynorthwyol yn 50/50.**

**Cam Gweithredu: - Dylid newid y geiriad ar y proffiliau rôl ar gyfer swyddi Dirprwy Brif Gwnstabl a Phrif Gwnstabl Cynorthwyol i 'nhw' yn hytrach nag 'ef' neu 'hi'.**

**Cam Gweithredu: - Dylid anfon yr holl adborth sy'n ymwneud â'r proffiliau rôl ar gyfer swyddi Dirprwy Brif Gwnstabl a Phrif Gwnstabl Cynorthwyol at MBr. Bydd yr holl adborth yn cael ei gyfuno a'i ddsbarthu i bob aelod.**

### **4. Y system plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol**

Esboniwyd y system plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol i'r grŵp gan DFP. Mae datrys problemau'n rhywbeth y mae'r heddlu bob amser wedi'i wneud fel rhan o'u dyletswyddau dyddiol, ac mae'r fethodoleg datrys problemau OSARA yn darparu'r strwythur ar gyfer deall achos craidd problem yn llawn er mwyn ei ddatrys a/neu ei reoli'n well.

Cyflwynwyd y system plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol i'r grŵp gan DPF, a gofynnodd iddynt ystyried y canlynol:-

- Agweddau o breifatrwydd y wybodaeth sy'n cael ei disgrifio yn y system.
- Os taw'ch gwybodaeth chi fyddai yn y system, a fyddech chi'n fodlon â'r ffordd mae'n cael ei chadw a'i defnyddio.
- Pa un ai a oes gan y wybodaeth archwilio lefel diogelwch digonol ar gyfer sicrhau nad yw swyddogion a staff yn mynd mewn i'r system hon yn ddiangen.

Hysbysodd DFP y grŵp y gellir cysylltu cynllun plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol â systemau eraill HDP ac yna byddai hyperddolen yn cael ei greu, ond os nad oes gan unigolyn fynediad at system benodol, ni fydd yr hyperddolen yn gadael i unigolyn gael mynediad at y system honno. Bydd yn rhaid i unrhyw swyddog/aelod staff sy'n mewngofnodi i'r system plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol gyfiawnhau'r rheswm dros geisio mynediad i'r system, a byddai archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau y glynir wrth hyn.

Cafwyd trafodaeth ynghylch preifatrwydd a diogelwch. Mynegwyd pryder ynglŷn â pha un ai a ddylai unigolion gael gwybod bod gwybodaeth amdanynt ar y system plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol. Awgrymodd NC ac JC y dylai unigolion gael gwybod os yw system yn dal gwybodaeth amdanynt. Esboniodd DFP wrth y grŵp y byddai'r wybodaeth mewn perthynas ag unigolyn eisoes wedi'i chofnodi ar system arall a bod y system plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol yn casglu'r holl wybodaeth sydd ar gael ar unigolyn. Mae hyn yn caniatáu i'r swyddog neu'r aelod staff gael darlun cliriach o'r materion a'r ffordd orau o'u datrys. Dangosodd DFP enghraifft o gynllun plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol i'r grŵp.

Mynegodd JJ bryder ynghylch pwy yw'r asiantaeth fyddai'n cael mynediad i'r system hon. Dywedodd DPF y byddai asiantaethau partner ond yn cael mynediad i'r camau gweithredu a godir o gynllun plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol.

Mynegodd DT bryder ynghylch diogelwch. A yw'r heddlu'n agor porth na fydd o bosibl yn cael ei gau o fewn eich meddalwedd? Byddai hyn yn galluogi hacwyr i gael mynediad i system. Byddai perchennog y system yn awdurdodi mynediad ar gyfer swyddogion/staff. Byddai angen i unigolion gyfiawnhau pam mae angen mynediad arnynt i'r system.

Mynegodd NC bryder ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i gam gweithredu pan mae rhywun i ffwrdd o'r gwaith yn sâl. Dywedodd DPF fod gan oruchwylwyr fynediad at gynlluniau plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol; gan hynny, os oes rhywun i ffwrdd o'r gwaith yn sâl neu ar wyliau blynyddol, bydd y goruchwyllydd yn aildrynnu'r cynllun plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau gan rywun arall.

Dywedodd DT ei fod yn cytuno mewn egwyddor â'r system plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol. Dylai'r cynllun plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol fod ar ffurf ddienw er mwyn sicrhau nad oes gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu gydag amrediad o unigolion eraill sydd ddim wir angen y wybodaeth hon. Esboniodd DFP y byddai'r swyddogaethau archwilio mewn grym er mwyn sicrhau bod unigolion yn

cyfiawnhau pam eu bod nhw'n cael mynediad i'r system plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol.

Mynegodd NC bryder na fyddai unigolion sydd â'u manylion ar y system hon yn medru ymuno â'r heddlu pe baent yn dymuno. Dywedodd yr Arolygydd Bowen fod y system hon yn croesgyfeirio ac yn dwyn yr holl wybodaeth sydd ar gael at ei gilydd ar gyfer datrys problemau penodol. Mae'r heddlu'n datrys problemau pob dydd. Mae'r system hon yn caniatáu i'r heddlu gofnodi sut mae problemau'n cael eu trin. Gan hynny, gellir rhannu arfer gorau. Nid yw cael eich enwi ar y system hon yn mynd i fod yn rheswm dros fethu ag ymuno â'r heddlu, heblaw bod gan unigolyn euogfarn droseddol sydd weithiau'n atal rhywun rhag ymuno. Ni fyddai cael eich stopio a'ch chwilio gan yr heddlu, neu gael cofnod gwybodaeth amdanoch, yn rheswm dros fethu ag ymuno â'r heddlu. Gwneir gwiriadau manwl er mwyn sicrhau bod unigolion onest yn ymuno â'r heddlu waeth pa beth bynnag yw cefndir unigolyn, ac ni waeth o ble y daw.

Mynegwyd pryder ynghylch rhybuddion , megis pa un ai a fyddent yn aros ar y system plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol pan fyddant wedi dar fod ar systemau eraill wrth i amser fynd heibio. Hysbysodd yr arolygydd y grŵp nad yw rhybuddion yn dar fod o gofnodion bellach.

Ar hyn o bryd, mae camau gweithredu o'r system plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol ond yn cael eu hanfon at unigolion o fewn HDP. Yn y dyfodol, byddant ond yn cael eu hanfon at asiantaethau partner.

**Cam Gweithredu: - Gofynnodd y grŵp i DFP roi diweddariad ynglŷn â'r system plismona sy'n canolbwyntio ar broblem benodol ymhen 9 mis.**

## **5. Cylch Gorchwyl y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol – Pwynt 2.6**

Gofynnodd NH i'r grŵp am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd gan fod tymor y Cadeirydd presennol yn dod i ben. Dywedodd ME y dylai pob aelod ystyried pwy maen nhw'n dymuno cael fel y Cadeirydd nesaf cyn cyfarfod 10 Rhagfyr 2018.

Gofynnodd CLH i'r grŵp pa un ai a oeddent yn hapus fod yr holl nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cynrychioli. Dywedodd ME nad oedd yr holl nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd, ond mae hyn yn cael ei drin drwy recriwtio. Hysbysodd ME y grŵp y bydd 2 aelod newydd yn ymuno â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn y dyfodol agos iawn, gobeithio.

Ailadroddodd NH nad yw'r holl nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cynrychioli ar hyn o bryd. Mae'r grŵp o hyd yn chwilio am aelodau newydd i gynrychioli'r nodweddion gwarchoddedig. Cafwyd trafodaeth ynghylch pa nodweddion gwarchoddedig sy'n cael eu cynnwys ar hyn o bryd, a pha rai sydd ddim. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp yn chwilio am unigolion sy'n cynrychioli, hil, crefydd, cred, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd a'r iaith Gymraeg yn arbennig.



Awgrymodd CHL y gallai SCHTh gynorthwyo â hyrwyddo ymgyrch recriwtio. Dywedodd NC fod angen i'r panel sicrhau ansawdd recriwtio er mwyn cael panel mwy amrywiol hefyd.

Hysbysodd CHL y grŵp fod SCHTh yn ffurfio fforwm ieuenctid mewn cydweithrediad â Heddlu Dyfed-Powys, ac awgrymodd y dylai fod cyswllt rhwng y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol a'r fforwm ieuenctid newydd arfaethedig. Cytunodd y grŵp y byddai hyn yn syniad da.

Hysbysodd ME y grŵp y byddai diwrnod hyfforddi arall ar gyfer gwirfoddolwyr yn cael ei gynnal fis Rhagfyr ac y byddai'r holl grwpiau gwirfoddolwyr amrywiol yn gysylltiedig â hyn. Hefyd, bydd cyfle i bob grŵp gwirfoddolwyr ddweud wrth bawb beth maen nhw eisiau gwneud o fewn eu rôl.

**Cam Gweithredu:- Pob aelod i anfon eu henwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd at MBr.**

**Cam Gweithredu:- ME i sicrhau bod nodweddion gwarchoddedig aelodau o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn cael eu cynnwys ar ystadegau Amrywiaeth Heddlu Dyfed-Powys.**

## **6. Taflen Recriwtio'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol – Fformat Hawdd Ei Ddarllen**

Dangoswyd fersiynau drafft o daflen recriwtio, ffurflen gais a ffurflen gwybodaeth bersonol hawdd eu darllen y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i'r grŵp a derbyniwyd adborth. Bydd diwygiadau a awgrymwyd yn cael eu hanfon ymlaen at fudiad Pobl yn Gyntaf Sir Benfro a bydd y drafft yn cael ei ddiweddarau.

**Cam Gweithredu:- MBr i anfon adborth mewn perthynas â thaflen recriwtio, ffurflen gais a ffurflen gwybodaeth bersonol hawdd eu darllen y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol at fudiad Pobl yn Gyntaf Sir Benfro.**

## **7. Cadeirydd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol**

Trafodwyd hyn ym mhwynt 5.

## **8. Lansio DVD Seiberdroseddu SchoolBeat**

Hysbysodd ME y grŵp fod SchoolBeat a TARIAN, Uned Droseddau Ranbarthol De Cymru, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, wedi credu ffilm o'r enw "Peidiwch â Chamu at Seiberdroseddu", sy'n tynnu sylw at y mater ac yn ymdrin â'r canlyniadau posibl. Menter ar gyfer atal seiberdroseddu yw'r ffilm hon, sydd wedi'i hanelu at blant o 11 i 14 oed. Bydd y ffilm yn cael ei dangos i bob ysgol. Mae'r ffilm ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac mae'n cynnwys cyfieithiad Iaith Arwyddion Prydain. Bydd y Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn cyflwyno'r ffilm hon i bob ysgol, ynghyd â chynllun gwers. Gwyliodd y

grŵp y ffilm, a rhoi adborth i ME. Cytunodd y grŵp eu bod nhw'n hoffi'r fideo ac yn falch iawn ei fod yn cynnwys cyfieithiad Iaith Arwyddion Prydain.

Nodir fod cyllid ar gyfer SchoolBeat wedi'i estyn i fis Mawrth 2020.

## **9. Diweddariadau o Gyfarfodydd Eraill.**

### **9a. Y Bwrdd Cofleidio Amrywiaeth**

Aeth NH i gyfarfod o'r Bwrdd Cofleidio Amrywiaeth ym mis Mehefin 2018, a rhoddodd ddiweddariad i'r grŵp. Trafodwyd hyrwyddo rolau rhyw a chydbwysedd o ran rhywedd ar baneli cyfweld. Awgrymodd NH y dylai 40% o aelodau panel fod yn fenywod. Edrychir ar gyfleoedd ar gyfer gweithio rhan amser a rhannu swydd fel rhan o'r broses recriwtio.

Mae'r grŵp hwn wrthi'n edrych ar gyfleoedd ar gyfer gweithio rhan amser a rhannu swydd fel rhan o'r broses recriwtio.

### **9b. Y Pwyllgor Moeseg**

Aeth NH i'r cyfarfod a rhoddodd drosolwg o'r hyn a drafodwyd i'r grŵp.

Mae'r Pwyllgor Moeseg yn cyfarfod unwaith y mis ar ddydd Mercher, a gofynnodd NH i'r grŵp pa un ai a oedd rhywun ar gael i rannu presenoldeb.

**Can Gweithredu: - MB i rannu dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a choladu atebion y rhai sy'n dymuno mynd.**

### **9c. Grymuso Menywod**

Gweler y diweddariad ynglŷn â'r bwllch rhwng y rhywiau yn eitem 3.

### **9ch. Sicrhau Ansawdd – Craffu ar y broses Stopio a Chwilio**

Rhoddodd DT ddiweddariad i'r grŵp mewn perthynas â chyfarfod y Panel Craffu ar y Broses Stopio a Chwilio. Awgrymodd DT fod angen i'r panel fod yn fwy amrywiol, ac mae angen bwydo hyn yn ôl i'r panel. Mae parhad hefyd yn bwysig oherwydd gellir ond adnabod patrymau dros gyfnod o amser.

### **9d. Diweddariad gan SCHTh**

Rhoddodd CHL ddiweddariad i'r grŵp ar ran CB. Cynhaliwyd cyfarfod o'r panel stopio a chwilio a chwynion ar 25 Mehefin 2018. Diolchodd CB DT am fod yn bresennol yng nghyfarfod y Panel Craffu ar y Broses Stopio a Chwilio gan fod cyfraniad DT yn werthfawr a chalonogol. Edrychodd y panel ar fideo camerâu corff am y tro cyntaf. Edrychwyd ar 2 fideo. Cyflawnwyd gwaith pellach er mwyn sicrhau mwy o ddarnau ffilm ar gyfer yr adolygiad nesaf, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 24 Hydref 2018. Gwahoddodd CHL un cynrychiolydd o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i fod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf. Cafwyd trafodaeth ynghylch camerâu corff a chytunodd y grŵp y dylai'r eitem hwn fod ar agenda'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Roedd y panel yn methu ag ystyried proffil Stopio a Chwilio'r heddlu gan fod gwaith yn digwydd er mwyn dadansoddi'r data i sicrhau bod y proffil yn adlewyrchiad cywir o berfformiad Heddlu Dyfed-Powys. Cytunwyd gyda'r heddlu y byddai'r proffil yn cael ei rannu â SCHTh cyn gynted â phosibl. Awgrymwyd gan y panel sicrhau ansawdd y gall fod cyfle i swyddogion heddlu gynnig gwybodaeth am beryglon cyffuriau er mwyn ymgysylltu'n fwy cadarnhaol gyda defnyddwyr ifainc, ac o bosibl defnyddwyr afreolaidd fel ffordd o orffen y broses stopio a chwilio ar nodyn mwy cadarnhaol. Mae'r Heddlu'n ystyried cyfleoedd amrywiol ar hyn o bryd ar gyfer ymgysylltu ymhellach ag unigolion sy'n cael eu stopio a'u chwilio. Bydd rhai o'r rhain yn ceisio cysylltu â SCHTh, ac ni chodwyd unrhyw bryderon penodol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod y cyfarfod hwn.

Hysbysodd CHL y grŵp fod y Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys wedi cyfarfod ar 16 Gorffennaf 2018 ac ni chodwyd unrhyw faterion penodol. Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd Defnydd o Rym a Throseddau Casineb wedi cyfarfod ar 31 Awst 2018. Hwn oedd golwg cyntaf SCHTh ar y defnydd o rym, ac yn gyffredinol, roedd y panel yn gefnogol ac yn fodlon â lefel yr ataliaeth wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd.

Edrychon nhw ar bum digwyddiad gyda chymorth ffilm camerâu corff. Ystyriwyd digwyddiadau a throseddau casineb am yr eildro. Nodwyd rhai gwelliannau o ran y modd yr oedd materion yn cael eu trin, ac mae'r adroddiad yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. Ni fynegwyd unrhyw bryderon penodol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y cyfarfod. Bydd adroddiadau llawn o'r uchod ar gael ar wefan SCHTh maes o law. Mae SCHTh hefyd wrthi'n gorffen eu hadroddiad ar graffu dwys mewn perthynas â'r defnydd o rym. Diolchodd CHL y grŵp am eu cyfraniad o ran y defnydd o rym. Mae'r adborth wedi'i fwydo i mewn i'r broses.

Hysbysodd CHL y grŵp mai ymchwil mewn perthynas â'r defnydd anghyfreithlon o gyffuriau fydd y thema nesaf ar gyfer craffu dwys, a byddai SCHTh yn croesawu aelodau o'r GYA i'r grŵp ffocws, neu gwblhau arolwg er mwyn rhoi adborth ar y pwnc hwn. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei rhannu cyn gynted â phosibl.

## **9dd Atebion i gwestiynau blaenorol a godwyd gyda SCHTh.**

Sut dewisir cofnodion Stopio a Chwilio?

Mae aelod o staff SCHTh yn dewis y cofnodion ar hap o restr a olygwyd. Ceisir dewis amrediad o ardaloedd a phroffiliau ethnig. Mae cyfeirnodau'r detholiad yn

cael eu hanfon at y tîm camerâu corff er mwyn iddynt ddod o hyd i'r darnau ffilm cyfatebol.

Pa mor gynhwysol neu anghynhwysol yw'r panel sicrhau ansawdd?

Mae croeso i unrhyw un o breswylwyr ardal Dyfed-Powys wneud cais i ymuno â'r panel. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys unigolion hŷn yn bennaf, fodd bynnag, mae gwaith yn digwydd er mwyn datblygu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â grŵp ehangach o bobl. Er enghraifft, mae mudiad Pobl yn Gyntaf Sir Benfro'n awyddus iawn i ymgysylltu â SCHTh. Byddai SCHTh yn croesawu cefnogaeth y GYA ar gyfer recriwtio aelodaeth fwy amrywiol.

A fydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r GYA, neu dim ond pan mae SCHTh yn ystyried fod angen hyn?

Bydd SCHTh yn ceisio rhoi diweddariad ynghylch gweithgareddau a chynnwys y GYA pan fo'n briodol, er enghraifft, wrth graffu ar brosesau stopio a chwilio, craffu dwys ac ati, ond ni fyddant yn darparu'r adroddiadau llawn yn rheolaidd oherwydd mae SCHTh yn ymwybodol o agenda'r GYA, sydd eisoes yn llawn, a'r anawsterau y gallai'r adroddiadau eu cyflwyno ar gyfer dadansoddi yn y cyfarfodydd. Cyflwynir unrhyw faterion amrywiaeth y tynnwyd sylw atynt drwy waith SCHTh i'r grŵp ar ffurf adroddiadau eithrio. Mae pob adroddiad hefyd yn cael ei gyhoeddi'n rheolaidd ar wefan SCHTh.

#### **9e Diweddariad gan yr Adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.**

Hysbysodd ME y grŵp fod cyfarfod Bwrdd Ymgynghori ar Gomisiynu SCHTh yn cael ei gynnal ar 8 Tachwedd 2018. Nod y bwrdd hwn yw craffu ar y gwasanaethau a gomisiynir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'u cytundebau, bod blaenoriaethau'r cynllun heddlu a throseddu'n cael eu bodloni, a bod y gwasanaeth gorau ar gael i'r cyhoedd. Dylai unrhyw un sydd eisiau mynd i'r cyfarfod hwn roi gwybod i MBr.

Hysbysodd ME y grŵp fod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb yn cael ei chynnal yn ystod yr wythnos sydd yn dechrau 13 Hydref 2018. Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi £5,000 tuag at ariannu'r wythnos hon. Mae SCHTh eisiau rhoi peth o'r arian hwn nôl i'r cymunedau.

**Cam Gweithredu:- MBr i osod camerâu corff ar yr agenda ar gyfer cyfarfod 10 Rhagfyr 2018.**

**Cam Gweithredu: - Aelodau'r GYA i roi gwybod i ME neu CHL os ydynt yn gwybod am unrhyw grwpiau o fewn y gymuned sy'n gysylltiedig ag ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a allai elwa o arian ychwanegol.**

#### **10. Gwerthusiad o'r cyfarfod**

Sicrhaodd NH fod deilliannau'r cyfarfod fel y'u nodwyd ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod wedi'u bodloni. Cadarnhawyd fod yr holl ddeilliannau wedi'u bodloni.

Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf yw 10 Rhagfyr 2018, a hynny am 10.30 o'r gloch y bore ym Mhencadlys yr Heddlu.